

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Fehefin 2015

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Siân Godbert, Karen Pugh, Cyng. Elizabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau, Jim Boughton, Meirion Owen, Janet Charlton, Terry Bullock, Gareth Parry, Marion Bettenev, SCHG Dean Cavey.
Datgan diddordeb, Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Ethol Cadeirydd/Is Gadeirydd
Penderfynwyd gohirio'r mater hyd nes y cyfarfod nesaf.
Cofnodion –Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 11eg Fai 2015.

(1)Yr Heddlu

Dywedodd y clerc nad oedd SCHG Dean Cavey yn medru bod yn bresennol ond ei fod wedi cyngori bod trefniadau ar gyfer Gorchymyn Amddiffyn Mannau Cyhoeddus ar gyfer Pont-y-Pair ar ardal gyfagos yn symud ymlaen ac yn cael ei weithredu yn y dyfodol agos.

[1.1] Cais i gynnal Pont Droed Gorsaf Drên Betws-y-coed

Eglurodd y Cyng. Elisabeth Roberts bod cyfarfod gyda Network Rail i gael ei gynnal yn y dyfodol agos lle bydd y mater yn cael ei drafod.

[1.2] Canghenni Coed Eiddew/Llwybr o Ffordd yr Orsaf i Stablau'r Royal Oak

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.3] Pencampwriaeth y Byd Ras Redeg Mynydd

Croesawyd Mr Alun Pritchard [Cyngor BS Conwy] i'r cyfarfod ac amlinellodd y trefniadau ar gyfer y ras Redeg Mynydd Pencampwriaeth y Byd i'w chynnal ym Metws-y-coed yn ystod mis Medi. Bydd y ras yn cychwyn a gorffen yng Nghae Llan a disgwylir cystadleuwyr o wahanol wledydd

[1.4] Llechi Rhydd [Siop Wag] Ultimate Outdoors

Dywedodd y Cyng Gwawr Jones bod y mater wedi cael sylw.

[1.5]] Materion Priffyrdd

Priffordd yr A5 ger Glenwood.- Cyfeiriodd y clerc at yr ymateb gan y Cynulliad Cenedlaethol yn amlinellu y dylai derbyn cadarnhad gan berchnogion eiddo sydd yn union gyferbyn a'r lleoliad ar yr A5, nad oedd gwrthwynebiad i ymestyn y llinellau melyn.

[1.6]Defilibrator

Gan nodi ymateb gan Mr Glenn Evans, y clerc i gysylltu gyda pherchennog Gorsaf Betrol Shell i wneud ymholiad ynglyn ai leoli yn yr orsaf betrol.

[1.7] Talu ac Arddangos Maes Parcio Ffordd yr Orsaf

Cyfeiriodd y clerc at ohebiaeth oddiwrth Ms Kate Vincent. Penderfynwyd ymateb na fu i'r Parc Cenedlaethol gynnal cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned ac na wnaed arolwg o ddefnyddwyr gan y Cyngor, ond bod cwynion wedi ei gwneud i Ystâd Ancaster ynglŷn â cham ddefnydd o'r maes parcio.

[1.8] Nadolig Betws-y-Coed

Croesawyd Mr & Mrs Asheton i'r cyfarfod ac amlinellwyd ganddynt y trefniadau ar gyfer Nadolig Betws-y-Coed yn cynnwys y bwriad i godi arian a.y.b. Cytunodd y Cyngor i ddefnydd o Gae Llan, gofynnodd y clerc hefyd am restr o'r digwyddiadau.

[1.9] Man Chwarae Cae Llan

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts bod trefniadau'n parhau ymlaen a bod APCE yn gefnogol i'r cynnig. Bydd trafodaeth pellach hefyd gyda Mr Lyn Davies Cyngor BS Conwy.

[2] Cais am Finau Ysbwriel ym Maes Parcio Pella' Ffordd yr Orsaf

Cyfeiriodd y clerc at ymateb gan APCE yn cyfeirio nad oedd yn bolisi gan y Parc Cenedlaethol i ddarparu binau ychwanegol ar feysydd parcio a lleoliadau eraill o ystyried y costau ychwanegol a.y.b. Eglurwyd bod y wardeiniaid yn casglu ysbwriel yn ddyddiol yn ystod tymor yr haf. Dylai hyn sicrhau nad oes ysbwriel yn cronni.

[2.1] Taflen Wybodaeth Rhaeadr Ewynnol

Dywedodd y Cadeirydd ei fod mewn cysylltiad â'r hanesydd lleol Mr Glyn Jones ynglŷn a'r mater.

Y brif agenda

[2.2] Materion Cynllunio

[a] Cais i adeiladau estyniad unllawr yn y cefn, Willow Cottage, Ffordd Caergybi, Pentre Du. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[b] Apêl i'r Arolygaeth Gynllunio yn erbyn y penderfyniad yn gwrthod caniatâd cynllunio i gadw gwaith metel ar ben y wal. Tir ger Ffordd yr Orsaf, Betws-y-Coed. Nodwyd bod yr apêl wedi ei wrthod.

[2.3] Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddsbarthwyd) a wnaed ym mis Mai 2015.
(b) Y Rhaeadr Ewynnol –Nodwyd y ffigyrau [a ddsbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mai 2015.

[2.4] Penodiad Gofalwyr/Neuadd Goffa

Penderfynwyd cadarnhau penodiad Gemma a Michael Hughes yn gyd ofalwyr o'r Neuadd Goffa. Y clerc i drefnu cytundeb deiliadaeth Bryn-y-Bont

[2.4] Boots Chemists

Nodwyd bod yr apêl gan Boots Chemist am ganiatâd i ddarparu gwasanaethau fferyllol ym Metws-y-Coed wedi ei wrthod gan Adran Llywodraeth Cymru ar gyfer lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cadeirydd _____